WAKESTOCK 2012

AMODAU A THELERAU 2012
TERMS AND CONDITIONS 2012

ALL TICKETS ARE SOLD SUBJECT TO AVAILABILITY AND TO THE WAKESTOCK FESTIVAL TERMS AND CONDITIONS. THESE TERMS AND CONDITIONS SHOULD BE READ CAREFULLY PRIOR TO PURCHASE AND ANY QUERIES RELATING TO THEM SHOULD BE RAISED WITH US PRIOR TO PURCHASE AS PURCHASE OF TICKETS CONSTITUTES ACCEPTANCE OF THESE TERMS AND CONDITIONS AND IMPLIES AN UNDERTAKING ON THE PART OF THE HOLDER TO OBSERVE THEM.

GWERTHIR TOCYNNAU TRA AR GAEL AC YN UNOL Â THELERAU AC AMODAU GŴYL WAKESTOCK. DYLID DARLLEN Y TELERAU A'R AMODAU HYN YN OFALUS CYN EU PRYNU A DYLID GOFYN UNRHYW GWESTIYNAU YNGLŶN Â HWY I NI CYN EU PRYNU GAN FOD PRYNU TOCYNNAU YN GOLYGU BOD Y TELERAU A'R AMODAU HYN WEDI EU DERBYN AC YN ARWYDD Y BYDD Y DALIWR YN CADW ATYNT.

• Dylid darllen holl amodau'r tocyn yn ogystal â phob datganiad a / neu gyfarwyddyd arall a ddangosir un ai ar y tocyn, ar y wefan (www.wakestock.com) neu ar y safle. Mae copi caled o'r amodau cyflawn ar gael ar gais gan yr hyrwyddwr.
• Bydd unrhyw docyn a ddaw i feddiant y daliwr mewn dull sy'n torri'r Telerau a'r Amodau hyn yn ddi-rym. Gellir ystyried unrhyw berson fydd yn ceisio defnyddio tocyn di-rym o'r fath er mwyn cael neu roi mynediad i'r digwyddiad yn dresbaswr a geill fod yn agored i gael ei ddiarddel ac yn agored i gamau cyfreithiol.
• Os bydd y cyflenwr yn torri'r cytundeb, ni fydd y cyflenwr yn atebol am unrhyw golled, ddifrod, cost neu draul yn codi o'r toriad hwn nad oedd yn rhesymol ragweladwy i'r cyflenwr ar ddyddiad y contract hwn.
• Ac eithrio pan fydd pwynt (20) yn berthnasol, ni ellir rhoi ad-daliad am docynnau na'u cyfnewid ar ôl eu prynu. Ceidw'r hyrwyddwr yr hawl i wrthod caniatáu mynediad os, ym marn resymol yr hyrwyddwr, y gallai caniatáu mynediad i'r daliwr i'r safle fod yn risg i ddiogelwch y gynulleidfa a / neu'r daliwr a / neu effeithio ar fwynhad y gynulleidfa a / neu rediad y cyngerdd. Er enghraifft, os ymddengys bod y daliwr dan ddylanwad diod a / neu gyffuriau ac / neu'n ymddwyn yn ymosodgar / yn methu cyflwyno prawf o hunaniaeth neu oedran pan ofynnir iddo/iddi. Ni fydd ad-daliad yn cael ei roi i ddalwyr tocynnau y gwrthodir caniatáu mynediad iddynt neu y gofynnir iddynt adael oherwydd eu hymddygiad eu hunain fel yr awgrymir yn yr enghreifftiau uchod, ond nid yw wedi ei gyfyngu i'r enghreifftiau hynny. Ni chaniateir sylweddau anghyfreithlon o gwbl. Gellir archwilio pobl sy'n dod i mewn i'r safle.
• Ni chaniateir gwersylla yn y meysydd parcio na chysgu mewn cerbydau yn y meysydd parcio. Caniateir gwersylla ar y safle mewn meysydd gwersylla dynodedig yn unig. Dim ond gyda thocyn gwersylla penwythnos y caniateir gwersylla. Dim ond un maes pebyll Wakestock swyddogol sydd – bydd pebyll yn cael eu symud os ceir eu bod wedi eu gosod y tu allan i'r maes pebyll swyddogol, yn y maes parcio neu mewn caeau cyfagos.
• Ni fydd faniau campio yn cael mynediad i'r safle heb docyn fan gampio. Rhaid prynu tocynnau fan gampio ymlaen llaw ac ni fyddant ar gael o'r swyddfa docynnau ar y safle – nifer cyfyngedig sydd ar gael. Rhaid i bob person sy'n aros mewn fan gampio feddu ar docyn gwersylla penwythnos dilys.
• Ni chaniateir carafannau a phebyll trelar ar y safle.
• Rhaid i bawb sydd gan docyn gyfnewid eu tocyn am fand arddwrn wrth gyrraedd – rhaid gwisgo'r band arddwrn trwy gydol y digwyddiad.
• Ni chaniateir mynd ag alcohol i'r arena. Ni chaniateir gwydr yn unrhyw ran o'r safle – ceidw Wakestock Ltd. yr hawl i yrru unrhyw un sydd ag eitemau gwydr yn eu meddiant o'r safle a gwrthod eu gadael i mewn. Fe'ch gwaherddir hefyd rhag dod ag unrhyw dân gwyllt, arfau a gwrthrychau eraill peryglus, recordyddion tâp / fideo, ac unrhyw offer clywedol / fideo arall ar y safle.
• Os digwydd y bydd tywydd garw dylech wisgo dillad cynnes sy'n dal dŵr.
• Ni fydd systemau sain preifat yn cael eu caniatáu yn unrhyw ran o'r safle – mae gan yr heddlu a'r contractwr diogelwch y pŵer i fynd ag unrhyw systemau sain y ceir hyd iddynt ar y safle oddi arnoch.
• Defnyddiwch y biniau a ddarperir os gwelwch yn dda – ni chaniateir gwneud tân yn unrhyw ran o'r safle a byddant yn cael eu diffodd.
• Mae cyfleusterau i'r anabl ar y safle, gan gynnwys platfform ar gyfer gwylio'r prif lwyfan.
• Dylai unrhyw un sy'n mynd ar goll yn yr arena gyfarfod yn y swyddfa docynnau ar y safle.
• Ni chaniateir dod ag anifeiliaid ar y safle.
• Ni fydd unrhyw un o dan 16 oed yn cael mynediad i'r safle. Os ydych o dan 25 oed argymhellir eich bod yn dod â gwybodaeth adnabod gyda chi. Y wybodaeth adnabod a dderbynnir yw trwydded yrru gyda llun, pasport neu gardiau prawf oedran wedi eu cymeradwyo gan y Llywodraeth megis Citizen Card.
• Ni fydd tocynnau neu fandiau arddwrn ffug yn cael eu derbyn ac mae'r gyfraith yn gwahardd ac yn cosbi achosion o gynhyrchu a dosbarthu eitemau o'r fath a nwyddau answyddogol.
• Ni chaniateir masnachu ar y safle o gwbl, nac ar safle Marina Pwllheli, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Wakestock Ltd. a'r trwyddedau cywir.
• Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau'r rhaglen lawn a hysbysebir, tocyn i ddigwyddiad yw hwn yn hytrach nag i weld artist / band penodol. Ceidw Wakestock Ltd. yr hawl i newid y rhaglen neu amser y rhaglen heb rybudd.
• Pe digwydd bod rhaid i Wakestock Ltd. ganslo'r ŵyl cyfyngir eu hawl i ad-daliad i werth enwol y tocyn yn unig. Os digwydd bod rhaid canslo rhan o'r ŵyl, mae gan Hyrwyddwr yr ŵyl y rhyddid i weithredu fel y gwelo orau mewn perthynas ag ad-daliad.
• Dylai trefniadau personol sydd wedi eu gwneud gan ddaliwr y tocyn, gan gynnwys teithio, llety neu letygarwch cysylltiedig â'r digwyddiad, gael eu gwneud ar eu menter eu hunain.
• Ni fydd tocynnau na bandiau arddwrn arall yn cael eu rhoi yn lle tocynnau neu fandiau arddwrn ayyb. a gollir. Cadwch eich tocynnau'n ddiogel.
• Mae dalwyr tocynnau yn caniatáu i ffotograffiaeth, ffilmio / recordio sain y digwyddiad fel aelod o'r gynulleidfa, y gellir eu defnyddio i ddibenion hyrwyddo.
• Rydych yn rhyddhau Wakestock a noddwyr y digwyddiad a'i gontractwyr o bob atebolrwydd cysylltiedig â cholli neu niwed i berson neu eiddo (oddieithr lle bydd niwed i'r person yn digwydd o ganlyniad i'w hesgeulustod hwy) ac rydych yn cytuno i gadw at yr holl reolau a rheoliadau cysylltiedig â'r safle a'r digwyddiad y rhoddir gwybod ichi amdanynt gan Wakestock.
• Ni fydd Wakestock yn gyfrifol am unrhyw eitemau a ddwynir neu a gollir tra ar y safle. Peidiwch â gadael unrhyw eitemau gwerthfawr yn eich pabell. Gellir cadw eiddo gwerthfawr yn y Cloakvroom ar y safle.
• Mae argraffiad diogelwch ar y tocynnau. Cadwch y tocyn yn sych os gwelwch yn dda gan y gallai gwlychu'r tocyn ei annilysu.
• Erys tocynnau yn eiddo i'r Hyrwyddwr hyd oni dderbynnir taliad llawn amdanynt.
• Mae Wakestock yn gweithredu polisi dim goddefgarwch mewn perthynas ag yfed dan oed - bydd rhaid i gwsmeriaid sydd o dan 18 oed adael safle'r ŵyl os canfyddir eu bod ag alcohol yn eu meddiant.

RHYBUDD – MAE POSIBILRWYDD Y GALL CERDDORIAETH UCHEL BERI NIWED I'R CLYW

ER DIOGELWCH I CHI BYDD CAMERÂU CYLCH CYFYNG YN CAEL EU DEFNYDDIO AR SAFLE'R ŴYL

DEFNYDDIWCH Y BINIAU A DDARPERIR OS GWELWCH YN DDA